

YMARFER 17: Sylwadau

A professor has¹ made a "wonderful" discovery² that claims Stonehenge stood for 400 years³ in the Preseli Hills in west Wales before being moved to Salisbury Plain⁴. Professor Mike Parker Pearson and his team say they have evidence⁵ that the ancient monument's famous bluestones had a previous life as a stone circle at Waun Mawn in the Preseli Hills, Pembrokeshire⁶.

They claim they stood there for four centuries⁷ before being dragged 140 miles – by hand – to the famous Wiltshire site, where they were resurrected⁸.

Stonehenge, believed to be a tribute to the dead, is actually a second-hand monument, brought by neolithic people migrating east into England from Wales.⁹

Mike said he had long held the theory¹⁰ that the smaller bluestones¹¹, which surrounded Stonehenge in a wide circle during its earliest phase, had started life as a monument in Wales¹². However, finding the site of a stone circle which no longer exists, 5,000 years after it was moved, is no simple task.¹³

The research started in 2010, with excavations beginning in 2012¹⁴, but as the years went by they experienced many set-backs involving bronze and iron age circles which weren't what they were looking for¹⁵.

A few years later it was a despondent group, led by Dave Shaw, who decided to excavate Waun Mawn, an "unpromising" marshy site described as "small and unremarkable", which had turned up nothing in the geophysics surveys.¹⁶

"It was the last throw of the dice, we were in last chance saloon," Mike said.¹⁷

1. Ystyr/ Cywair

A professor has...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Mae athro wedi...*
2. *Mae Athro wedi...*
3. *Mae proffesor wedi...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Mae athro prifysgol wedi...*
2. *Mae athro coleg wedi...*

SYLWADAU:

1. Er mai 'yr Athro X' yw'r ffordd gywir o fynegi 'Professor X' fel teitl yn Gymraeg, byddai'r darlennydd yn debygol o feddwl mai 'teacher' sydd dan sylw yma. Rhaid dweud *athro prifysgol* neu *athro coleg* i gyfleu'r ystyr yn gywir i'r darlennydd. Cofiwch ystyried sut byddai'r darlennydd yn dehongli eich dewis o eiriau. Byddai sgiliau 'ôl-gyfieithu' yn gymorth i osgoi camgymeriadau fel hyn, sef cyfieithu'r cyfieithiad yn ôl i'r iaith wreiddiol.

2. **Cywirdeb** ...has made a "wonderful" discovery...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. "*i'w ryfeddu*"

Cyfieithu llwyddiannus:

1. "*i ryfeddu ato*"

2. "*rhyfeddol*"

SYLWADAU:

1. Byddai nifer o ansoddeiriau'n addas ar gyfer 'wonderful' ac o ddewis 'rhyfeddu' byddai angen yr arddodiad 'ato' gan mai *rhyfeddu at* yw'r ferf.

3. **Cywair/
Cystrawen/
Cywirdeb** ...that claims Stonehenge stood for 400 years...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...sy'n hawlio bod...*

2. *...sy'n honni roedd...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...sy'n honni bod...*

SYLWADAU:

1. Mae gwahaniaeth rhwng ystyr 'hawlio' a 'honni'. Mae *Geiriadur yr Academi* a *Geiriadur Prifysgol Cymru* yn cyfleu'r gwahaniaeth. Ymglyfarwyddwch â'ch geiriaduron.

2. Hefyd, nid yw'r Saesneg wedi cynnwys y gair 'that' ar ôl 'claim' ond dyna yw'r ystyr. Meddyliwch a fyddai modd ychwanegu 'that' at y Saesneg, a chyfieithwch i'r Gymraeg fel pe bai 'that' yno.

4. **Cywair** ...in the Preseli Hills in west Wales before being moved to Salisbury Plain.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...ym mryniau'r Preseli*

2. *...Salisbury Plain*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...ym mynyddoedd y Preseli*

2. *...ym mynyddoedd y Preselau*

3. *...Gwastadedd Caersallog*

SYLWADAU:

1. Ymglyfarwyddwch â'ch adnoddau a'ch cyfeirlyfrau er mwyn cael gafael yn rhwydd ar enwau lleoedd. Ceir arweiniad ar bob math o adnoddau a chyfeirlyfrau ar wefan y Gymdeithas. Hefyd, yn eich gwaith bob dydd, byddai'n syniad ymchwilio drwy droi at wefannau Cymraeg lleol i weld beth sy'n arferedig gan bobl yr ardal.

5. **Cywair**

Professor Mike Parker Pearson and his team say they have evidence...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Meddai'r Athro Mike Parker Pearson...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Dywed yr Athro Mike Parker Pearson...*

2. *Yn ôl yr Athro Mike Parker Pearson...*

SYLWADAU:

1. Ceir ymdriniaeth â'r gwahaniaeth rhwng 'meddai' a 'dywed' yn yr *Arddulliadur*. Yn y cyswllt yma, *dywed* fyddai'n naturiol.

6. **Cystrawen/
Cywirdeb**

...that the ancient monument's famous bluestones had a previous life as a stone circle at Waun Mawn in the Preseli Hills, Pembrokeshire.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...fod gan gerrig glas enwog yr heneb fywyd blaenorol fel...*

2. *Waun Mawr*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...fod cerrig gleision enwog yr heneb yn arfer bod yn...*

2. *Waun Mawn*

SYLWADAU:

1. Ni ddylid cyfieithu'n rhy lythrennol. Ystyriwch sut i ymdrin â phriod-ddulliau, a phenderfynwch a ydych am chwilio am briod-ddull dda yn Gymraeg ynteu am gynnig cyfieithiad mwy syml.

2. At hynny, mae *cerrig glas enwog yr heneb fywyd blaenorol* yn enghraifft o bentyrru enwau, ac fe welwch fod y geiriau *gan* a *fywyd blaenorol* yn perthyn i'w gilydd ond braidd yn bell oddi wrth ei gilydd. Ystyriwch pa mor rwydd yw hi i'r darlennydd ddarllen hyn, a cheisiwch ystywto'r cymal.

3. *Waun Mawr* - mae'n rhy hawdd camddarllen y gwreiddiol neu gamdeipio. Caniatewch amser i brawfddarllen yn fanwl. Manteisiwch ar y gwiryddion sillafu (Cysill neu wirydd Cymraeg Microsoft Word), gan gadw mewn cof wrth gwrs nad ydynt yn

canfod popeth, yn enwedig os yw'r gair sydd wedi'i gamsillafu gennych yn air go iawn hefyd.

7. **Cystrawen/
Ystyr** **They claim they stood there for four centuries...**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Maen nhw'n honni eu bod...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Maen nhw'n honni bod y cerrig*

SYLWADAU:

1. Yn y cyfieithiad aflwyddiannus nid yw'n glir pwy sydd dan sylw yn yr *eu*, oherwydd nid yw'n glir yn y Saesneg pwy yw'r ail '**they**'. Mae'r cyfieithiad llwyddiannus yn arbed dryswch i'r darlennydd Cymraeg drwy ddweud yn glir mai'r cerrig sydd dan sylw. Ystyriwch bob amser a oes amwysedd yn cael ei greu yn eich cyfieithiad, ac ewch ati i wneud pethau'n fwy clir i'r darlennydd.

8. **Cywair/
Cystrawen** **...before being dragged 140 miles – by hand – to the famous Wiltshire site, where they were resurrected.**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...cyn cael eu llusgo 140 milltir*

2. *...â dwylo*

3. *...i safle enwog Swydd Wilton*

4. *...i safle enwog Wiltshire*

5. *...lle cawsant eu hatgyfodi*

6. *...lle gwelwyd eu hatgyfodiad*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...cyn cael eu llusgo 140 o filltiroedd*

2. *...â llaw*

3. *...â nerth bôn braich*

4. *...i'r safle enwog yn (Swydd) Wiltshire*

5. *...lle cawsant eu hail-godi*

SYLWADAU:

1. Mae *â nerth bôn braich* yn ychwanegu rhywbeth at y darn, ond byddai hynny'n dderbyniol yn y cyswllt hwn.

2. Cofiwch mai'r arferiad mewn naratif yw rhoi 'o + lluosog' ar ôl rhif mor fawr. (Afl.1).

3. Er bod *Swydd Wilton* yn bosibl, mae'n eithaf anghyfarwydd.

4. Mae *atgyfodi* (Afl.5 ac Afl.6) yn golygu dod â rhywbeth marw yn fyw, boed yn llythrennol neu'n rhywbeth haniaethol fel syniad neu arfer, felly gwell fyddai *ailgodi*.

9. **Cystrawen/ Cywirdeb** **Stonehenge, believed to be a tribute to the dead, is actually a second-hand monument, brought by neolithic people migrating east into England from Wales.**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Mae Côr y Cewri, a gredir i fod yn deyrnged i'r meirw, mewn gwirionedd yn heneb ail-law, a gyrchwyd gan bobl neolithig yn mudo i'r dwyrain i Loegr o Gymru.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Mewn gwirionedd, heneb ail-law a ddygwyd gan bobl Neolithig yn ymfudo i'r dwyrain i Loegr o Gymru yw Côr y Cewri, a chredir mai teyrnged i'r meirw ydyw.*

SYLWADAU:

1. '...a gludwyd'/a *ddygwyd* nid *a gyrchwyd*.
2. Rhaid ailystyried yr holl frawddeg. Dyma frawddeg aml-gymalog yn y Saesneg, a'r anoddaf yn y darn o bosib. Mae'n enghraifft o'r angen i dreulio amser yn penderfynu sut i gyfleu brawddegau'n foddhaol a chlr yn Gymraeg. Byddai'n rhy hawdd cyfieithu'n llythrennol gan ddilyn yr un cymalau. Er nad yw bob amser yn anghywir dilyn yr un cymalau, mae hynny'n gallu gwneud pethau'n ddiangen o gymhleth ac aneglur i'r darlennydd. Rhaid meddwl llawer am yr hyn sy'n cael ei ddweud, a sut mae'r wybodaeth yn cael ei chyflwyno i'r darlennydd.
3. Ac os byddwch yn defnyddio cymal perthynol, rhaid defnyddio'r rhagenw perthynol cywir: *y credir ei fod...* fyddai'n gywir nid *a gredir i fod*. Ceir arweiniad yn *Y Golygiadur* (tud. 300-02).

10. **Cywair** **Mike said he had long held the theory...**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Dywedodd Mike fod wedi dal y theori ers hir...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Dywedodd Mike mai ei ddamcaniaeth ers tro yw...*

SYLWADAU:

1. Nid yw 'theori' yn anghywir fel y cyfryw, ond *damcaniaeth* a ddefnyddiwn fel arfer pan fo 'theory' yn golygu 'cred'.
2. Hefyd, rhaid cyfleu'r pwyslais yn gywir yn y frawddeg hon: *mai... yw*. Cofiwch ystyried pwyslais brawddegau.

11. **Ystyr** **...that the smaller bluestones**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...y cerrig gleision llai*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...y cerrig gleision lleiaf*

SYLWADAU:

1. Mae dau fath o garreg yng Nghôr y Cewri, a'r 'bluestones' yw'r 'smaller of the two'. Cofiwch yn Saesneg fod y radd gymharol 'smaller' yn gallu golygu 'lleiaf' (yn ogystal â 'llai'). Rhwch sylw i ddehongli'r Saesneg yn fanwl gywir wrth gyfieithu, oherwydd gall patrymau naturiol y Gymraeg a'r Saesneg fod yn wahanol, ac mae'n bwysig sicrhau bod yr union eirfa a ddewisir yn briodol i'r iaith darged, fel arall bydd dylanwad yr iaith wreiddiol yn rhy amlwg yn y cyfieithiad.

12. Cywirdeb

...which surrounded Stonehenge in a wide circle during its earliest phase, had started life as a monument in Wales.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. ...a amgylchynnodd
2. ...a oedd yn cylchu

Cyfieithu llwyddiannus:

1. ...a amgylchynai
2. ...a oedd yn amgylchynu
3. ...a oedd yn ffurfio cylch eang o gwmpas

SYLWADAU:

1. Mae angen ystyried ai'r amser gorffennol ynteu'r amser amherffaith sydd ei angen yn Gymraeg, gan fod y Saesneg yn defnyddio'r un ffurf, sef 'surrounded'. Os disgrifio rhywbeth a oedd yn digwydd am gyfnod, yr amser amherffaith sydd ei angen. Ceir ymdriniaeth yn *Y Golygiadur*, tud.333.

13. Cystrawen/
Cywirdeb

However, finding the site of a stone circle which no longer exists, 5,000 years after it was moved, is no simple task.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. Fodd bynnag, nid yw darganfod safle cylch cerrig na sy'n bodoli bellach a 5,000 blynedd ar ôl iddo gael ei symud, yn dasg hawdd.

Cyfieithu llwyddiannus:

1. Fodd bynnag, nid ar chwarae bach y mae dod o hyd i safle cylch cerrig nad yw'n bodoli mwyach, a hynny 5,000 o flynyddoedd wedi iddo gael ei symud.
2. Fodd bynnag, tipyn o gamp yw dod o hyd i...
3. Fodd bynnag, nid tasg hawdd yw dod o hyd i...

SYLWADAU:

1. Mae mater pwyslais brawddeg yn codi eto. Cofiwch nad yw'r Saesneg yn cyfleu pwyslais drwy amrywio trefn ei brawddegau, ond rydym yn gwneud hyn yn Gymraeg. Gweler *Gramadeg y Gymraeg*, 6.32 (tud. 419).

2. Nid yw *na sy'n* yn gywir.
3. Mae *5,000 blynedd* yn chwithig. Eto, 'o + lluosog' ar ôl rhif mor fawr.

14. **Cystrawen** **The research started in 2010, with excavations beginning in 2012**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Dechreuodd yr ymchwil yn 2010, gyda chloddio yn dechrau yn 2012*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Dechreuodd y gwaith ymchwil yn 2010, a'r gwaith cloddio yn 2012*

SYLWADAU:

1. Drwy ailadrodd *gwaith*, ceir cydbwysedd yn y frawddeg. Meddylwch am rythm y brawddegau yn eich cyfieithiadau. Ceisiwch greu darn Cymraeg sy'n rhwydd a braf i'w ddarllen. Manteisiwch ar gyfle i fireinio'r mynegiant.

15. **Cywair/
Cystrawen/
Cywirdeb** **...but as the years went by they experienced many set-backs involving bronze and iron age circles which weren't what they were looking for.**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...ond fel i'r blynyddoedd mynd heibio*
2. *...cawsant sawl tro anffodus*
3. *...a oedd yn cynnwys cylchoedd oes efydd a haearn*
4. *...nad oeddent yn chwilio amdano*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...ond wrth i'r blynyddoedd fynd heibio*
2. *...daeth sawl siom i'w rhan*
3. *...wrth ganfod cylchoedd o Oes yr Efydd ac Oes yr Haearn*
4. *...nad oeddent yn chwilio amdanynt*
5. *...nad oeddent yn rhan o'r ymchwil*

SYLWADAU:

1. Mae'r frawddeg hon yn anodd hefyd, a rhaid rhoi sylw arbennig i'r gystrawen er mwyn cyfleu'r ystyr yn gywir.
2. Awgrym: 'ymwneud â chylchoedd o Oes yr Efydd ac Oes yr Haearn'. Byddai hyn yn osgoi defnyddio *oes efydd ac oes haearn* fel pe baent yn ansoddeiriau i ddisgrifio 'cylchoedd'.
3. O ran *nad oeddent yn chwilio amdano*, y cylchoedd sydd dan sylw, a lluosog yw hwnnw. Cofiwch sicrhau bod pethau'n cyfateb. Mae'r broblem wedi codi am fod '**what they were looking for**' yn bodoli yn y Saesneg er mwyn cyfeirio'n ôl ato, ond does dim gair i gyfateb i'r '**what**' hwn yno yn y Gymraeg. Pan fyddwch yn darllen

drwy eich gwaith ar y diwedd, meddyliwch a yw popeth yn gwneud synnwyr. Yn aml, os byddwch yn baglu wrth ddarllen drwyddo, mae rheswm gramadegol neu gystrawennol dros y broblem.

16. **Cystrawen/
Cywair**

A few years later it was a despondent group, led by Dave Shaw, who decided to excavate Waun Mawn, an “unpromising” marshy site described as “small and unremarkable”, which had turned up nothing in the geophysics surveys.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *roedd yn grŵp digalon, dan arweiniad Dave Shaw, a benderfynodd...*
2. *a oedd wedi cyrraedd dim yn yr arolygon geoffiseg*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *grŵp digalon dan arweiniad Dave Shaw a benderfynodd gloddio Waun Mawn*
2. *nad oedd yr arolygon geoffiseg wedi darganfod dim yno*

SYLWADAU:

1. Rhaid ystyried pwyslais y frawddeg hon eto: *grŵp digalon... a benderfynodd...*
2. Ystyr **‘turned up nothing’**: os ydych yn cael trafferth meddwl am yr union air/ymadrodd Cymraeg, chwiliwch am gyfystyron Saesneg neu ddiffiniad o eiriadur neu o’r we, a chyfieithu’r gair neu’r ymadrodd hwnnw i’r Gymraeg.

17. **Cywair**

“It was the last throw of the dice, we were in last chance saloon,” Mike said.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Hwn oedd yr ymdrech olaf, y siawns olaf.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Roeddem ar fin rhoi’r ffidil yn y to*
2. *Roedd hi’n unfed awr ar ddeg arnom*

SYLWADAU:

1. Mae’n dda cael gafael ar yr union air neu’r briod-ddulliau orau, ond byddai ymadroddion syml sy’n cyfleu’r ystyr yn dderbyniol os oes rhaid llunio’r cyfieithiad ar frys, a bod dim amser i chwilio’n hir am yr union briod-ddulliau. Mewn gwirionedd, y ffordd orau o sicrhau eich bod yn gallu cael gafael ar y priod-ddulliau Cymraeg mwyaf addas yn gyflym, ac yn wir eich bod yn gallu cyfleu popeth yn naturiol yn Gymraeg, yw drwy ddarllen a chlywed digon o Gymraeg da. Darllenwch bob math o lyfrau a chylchgronau sydd wedi’u hysgrifennu’n wreiddiol yn Gymraeg ac sydd wedi mynd drwy broses olygyddol. Dylai hynny fod yn gymorth i chi roi’r sylw priodol i gystrawen ac ymadroddion yn eich cyfieithiadau, yn ogystal ag ymarfer sgiliau darllen er mwyn gallu ystyried y modd y

byddai darlennydd yn darllen ac yn dehongli'r testunau Cymraeg a grëir gennych chi.